Rhif: **WG17030**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Papur Gwyn

# Cymru Gynaliadwy
# Dewis Gwell ar gyfer Dyfodol Gwell

Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer
y Bil Datblygu Cynaliadwy

Dyddiad cyhoeddi: **3 Rhagfyr 2012**
Ymatebion erbyn: **4 Mawrth 2013**

## Trosolwg

Mae'r Papur Gwyn hwn yn cyflwyno cynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefniadol i Lywodraeth Cymru a chyrff gwasanaeth cyhoeddus Cymreig yng Nghymru; ac i greu corff datblygu cynaliadwy annibynnol i Gymru.

## Sut i ymateb

Mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau. Croesewir sylwadau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Dylech anfon eich ymatebion i'r ymgynghoriad drwy'r e-bost neu'r post i'r cyfeiriad isod i'n cyrraedd ddim hwyrach na 4 Mawrth 2013.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

## Manylion cysylltu

Tîm y Bil Datblygu Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**E-bost:** SDBill@wales.gsi.gov.uk

**Ffon:** (02920 82) 1728 or 6541

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 0 7504 8258 5
ISBN digidol 978 0 7504 8259 2
© Hawlfraint y Goron 2012
WG17030

## Diogelu data

**Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Rhagair y Gweinidog



Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i wneud datblygu cynaliadwy'n ganolog i bopeth a wnawn. Mae'n ddyddiau anodd arnom ond mae hynny'n golygu cyfleoedd mawr yn ogystal â sialensiau mawr. Ein blaenoriaeth yw creu swyddi a chryfhau'r economi gan greu dyfodol tecach a mwy cynaliadwy i bobl Cymru heddiw ac yfory.

Gwneir hyn trwy weithredu er lles tymor hir pobl Cymru ond heb anghofio byth y ffactorau sy'n angenrheidiol i gynnal ansawdd bywyd tymor hir. Er mwyn dewis dyfodol gwell, rhaid rhoi sylw arbennig i les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pobl a chymunedau ac atgyfnerthu ein syniad o degwch a chyfiawnder cymdeithasol a phwysigrwydd ein diwylliant cyfoethog.

Byddwn yn datblygu'r ymrwymiad cryf iawn sydd eisoes yn amlwg ym mhob rhan o Gymru i ddatblygu cynaliadwy. Y Bil Datblygu Cynaliadwy yw'r cam nesaf ar lwybr datganoli. Bydd yn dangos yr hyn rydym am ei wneud i gryfhau ein fframwaith llywodraethu dros Gymru gynaliadwy. Bydd yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu cynaliadwy gan wneud yn siwr bod ein penderfyniadau'n esgor ar ganlyniadau go iawn. Byddwn yn gweithio o fewn cyd-destun rhyngwladol i Gymru allu cael y gorau o'r hyn y gall y byd ei gynnig ac o ganlyniadau Rio+20.

Rydym eisoes yn gwneud llawer o'n gwaith mewn ffordd fwy integredig gan roi pwyslais ar y tymor hir. Mae ein gwaith gyda'r blynyddoedd cynnar yn dod â rhieni, gofalwyr ac addysgwyr ynghyd i roi'r dechrau gorau posibl i bobl ifanc, pa beth bynnag eu hamgylchiadau. Bydd yn eu helpu i wneud y cyfraniad gorau i'n cymdeithas ar hyd eu hoes. Mae ein rhaglen 'arbed' yn gwella'r cartrefi sydd anoddaf eu cynhesu gan ddarparu swyddi a sgiliau lleol trwy wella'r llefydd y mae pobl yn byw ynddyn nhw. Bydd hyn yn arbed costau tanwydd ac yn taclo'r newid yn yr hinsawdd yr un pryd. Dyma ddwy enghraifft o waith â datblygu cynaliadwy yn ganolog iddyn nhw.

Trwy sicrhau bod pob penderfyniad yn un da, gallwn greu dyfodol tecach a mwy cynaliadwy, i wneud Cymru'n lle gwell i ni a'n plant. I wireddu'r uchelgais hwn, rhaid i gyrff weithio gyda'i gilydd a rhaid i bobl Cymru gael cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig ffordd ymlaen sy'n gwneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rwy'n hyderus y gwnaiff ein helpu i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y penderfyniadau iawn, gan ddiwallu anghenion heddiw heb aberthu anghenion cenedlaethau'r dyfodol a chan sicrhau dyfodol gwell i Gymru.



**John Griffiths AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 1

Fframwaith Llywodraethu ar gyfer Datblygu Cynaliadwy 7

2. Dyletswydd Datblygu Cynaliadwy 7

3. Corff Annibynnol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy 17

4. Gweithredu 22

5. Atebolrwydd 27

6. Casgliad 29

# 1. Cyflwyniad

## Cyfeiriad gwahanol

1.1 Ers i'r ddyletswydd arloesol yn Neddf Llywodraeth Cymru roi Datblygu Cynaliadwy wrth galon datganoli, mae Cymru wedi troedio llwybr nodedig tuag at ddatblygu. Yn y cyfnod ers datganoli ym 1999, mae datblygu cynaliadwy wedi dod yn fater llawer mwy amlwg, gyda chydnabyddiaeth gynyddol yn eang a nifer cynyddol o enghreifftiau llwyddiannus o’i ddefnydd ym mhob sector.

1.2 Mae *Rhaglen Lywodraethu* Llywodraeth Cymru yn atgyfnerthu pwysigrwydd datblygu cynaliadwy fel yr egwyddor greiddiol wrth ddiffinio'r llwybr datblygu gorau i Gymru. Yn ogystal â hynny, mae’n ymrwymo i sicrhau bod holl bolisïau a rhaglenni'r Llywodraeth yn adlewyrchu'r ymrwymiad canolog hwn i ddatblygu cynaliadwy.

1.3 Mae pwyslais y Llywodraeth ar y tymor hir yn tystio i’r dull hwn, gan gynnwys agwedd Cymru tuag at addysg drwy fuddsoddi yn nyfodol plant gyda chymorth ar gyfer y blynyddoedd cynnar a chymorth â ffioedd dysgu prifysgolion. Mae hefyd yn ategu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fuddsoddi yn iechyd y genedl, gyda phresgripsiynau am ddim a'r ddeddfwriaeth ar fagiau siopa untro yn dangos eto yr ymrwymiad i'r tymor hir, fel ein bod yn datblygu’n gymdeithas sy’n ailddefnyddio yn hytrach na’n taflu i ffwrdd. Gellir hefyd ei weld yn y modd integredig y cyflenwir o fewn y gwasanaeth cyhoeddus, a gaiff ei nodweddu gan gydweithio rhwng darparwyr gwasanaethau a ffocws ar roi llais i bobl a chymunedau ynghylch y ffordd y caiff eu gwasanaethau eu darparu.

1.4 Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i atgyfnerthu ymhellach safle datblygu cynaliadwy yn y cyfansoddiad Cymreig drwy gyflwyno deddfwriaeth i sefydlu datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol y gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Mae'r Papur Gwyn hwn yn amlinellu’r ffordd arfaethedig y bydd y ddeddfwriaeth yn cyflawni hyn.

### Llywodraethu 'Cynaliadwy' Gwell i Gymru

1.5 Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ddatblygu cymdeithas decach, lle y gall pob person gyflawni hyd eithaf ei allu a chyfrannu at y gymuned lle y mae’n byw. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi disgrifiad Cymru o ddatblygu cynaliadwy, sef:

> *“Dyma ein gwedd Gymreig ar ddatblygu cynaliadwy: lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pobl a chymunedau, sy’n ymgorffori ein gwerthoedd ynghylch tegwch a chyfiawnder cymdeithasol. Rhaid edrych hefyd tua’r dyfodol wrth wneud ein penderfyniadau – at fywydau plant ein plant yn ogystal â chenedlaethau heddiw.”*

1.6 Bydd cadw datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol, nid yn unig o fewn Llywodraeth Cymru, ond yn y gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru, yn atgyfnerthu'r ymrwymiad hwn ymhellach. Y nod yw sicrhau y caiff y penderfyniadau gorau posibl eu gwneud wrth geisio dyfodol hirdymor gwell, sy'n

cyflawni'r manteision hirdymor er lles economaidd, cymdeithasol *ac* amgylcheddol Cymru, o fewn terfynau amgylcheddol.

1.7 Nod y Bil Datblygu Cynaliadwy yw datblygu'r hyn a gyflawnwyd ers datganoli a chryfhau'r drefn lywodraethu yng Nghymru i gyflawni hyn.

## Datblygu Cynaliadwy

1.8 Deilliodd datblygu cynaliadwy o'r angen i gael model datblygu nad oedd yn canolbwyntio'n unig ar dwf economaidd - er mwyn ymateb yn arbennig i ymwybyddiaeth gynyddol o'r amgylchedd. Daeth y term datblygu cynaliadwy i amlygrwydd yn sgil cyhoeddi adroddiad Comisiwn Brundtland i'r Cenhedloedd Unedig ym 1987, a nododd:

> *"Humanity has the ability to make development sustainable - to ensure development that meets the needs of the present without compromising the ability of future generations to meet their own needs."*

1.9 Yng Nghymru, mae sail statudol i ddatblygu cynaliadwy gan fod Deddf Llywodraeth Cymru yn cynnwys dyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru greu cynllun datblygu cynaliadwy. Rhaid i'r cynllun nodi sut y mae Gweinidogion Cymru, yn rhinwedd eu swyddi, yn bwriadu hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae'r cynllun presennol, *Cymru'n Un; Cenedl Un Blaned,* yn nodi diffiniad Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy fel a ganlyn:

**Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru**

*Yng nghyd-destun Cymru, mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol:*

- *mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;*
- *mewn ffyrdd sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau - gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.*

*Datblygu cynaliadwy yw'r broses a ddefnyddiwn i gyflawni nod cynaliadwyedd*

1.10 Mae'r diffiniad yn amlinellu lles economaidd ac amgylcheddol a lles cenedlaethau'r dyfodol a hefyd yn adlewyrchu pwysigrwydd allweddol cyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb a diwylliant cyfoethog Cymru. O'r herwydd mae gwaith Llywodraeth Cymru ym maes datblygu cynaliadwy yn cyd-fynd â'r gwaith ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Yn ogystal â hyn, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol o fewn y cynllun datblygu cynaliadwy presennol. Hynny yw, fel bod datblygu cynaliadwy yn cyfeirio at *sut* y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r heriau economaidd, cymdeithasol ac

amgylcheddol y mae Cymru'n eu hwynebu, er mwyn pennu'r llwybr datblygu gorau ar gyfer y dyfodol.

**Yr UE a'r Cyd-destun Rhyngwladol**

1.11 Yn dilyn adroddiad Comisiwn Brundtland, mae datblygu cynaliadwy wedi ennill ei blwyf fel cysyniad gwydn ar lefel ryngwladol ac ar lefel Ewropeaidd yn arbennig. Mae datblygu cynaliadwy yn parhau i fod yn un o amcanion sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd ac mae ei Strategaeth Datblygu Cynaliadwy yn nodi sut y bydd yr UE yn gwireddu ei ymrwymiad i ateb heriau datblygu cynaliadwy, er mwyn sicrhau gwelliant hirdymor parhaus mewn ansawdd bywyd. Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i symud tuag at well dull integredig o lunio polisïau, ac mae'r dull yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion allweddol ar gyfer datblygu cynaliadwy, sy'n cynnwys tegwch a chydlyniad cymdeithasol, ffyniant economaidd, tegwch rhwng y cenedlaethau ac o fewn cenedlaethau, cynnwys dinasyddion ac integreiddio polisïau.

1.12 Ar lefel ryngwladol, ym mis Mehefin 2012 cyfarfu llywodraethau o bob cwr o'r byd yn Rio de Janeiro, Brasil ar gyfer Cynhadledd Rio+20 y Cenhedloedd Unedig ar Ddatblygu Cynaliadwy. Yn y gynhadledd daeth consensws i'r amlwg bod angen Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu byd-eang yn y dyfodol a'i integreiddio. Yn ogystal â hynny, cytunodd y gynhadledd ar ddogfen o ganlyniadau; *The Future We Want*, a oedd yn nodi amryw o ganlyniadau ac ymrwymiadau tymor hir i fwrw ymlaen â datblygu cynaliadwy. Mae *The Future We Want* yn egluro'r angen i gryfhau'r fframwaith sefydliadol ar gyfer tri 'dimensiwn' datblygu cynaliadwy wrth wneud penderfyniadau a'u hintegreiddio, gan gydnabod bod llywodraethu effeithiol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol yn hanfodol ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn i wella'r drefn lywodraethu ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru felly'n cyd-fynd â'r anghenion hynny a nodwyd. Yn ogystal â hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i chwarae rhan lawn wrth ddatblygu Nodau arfaethedig y Cenhedloedd Unedig mewn perthynas â Datblygu Cynaliadwy.

1.13 Ers datganoli, mae Cymru wedi chwarae rhan mewn trafodaethau rhyngwladol ac wrth feithrin gallu a dysgu rhyngwladol ynghylch datblygu cynaliadwy. Wrth gwrs, ni all Cymru sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol ar ei phen ei hun, ac mae cyfnewid gwybodaeth ac arfer da, meincnodi a gweithio mewn partneriaeth yn rhyngwladol yn rhan bwysig o ddull gweithredu Llywodraeth Cymru. Mae ei rhan fel un o aelodau gwreiddiol Rhwydwaith rhyngwladol y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy yn tystio i'r ymrwymiad hwn. Mae enghreifftiau pellach yn cynnwys y rhaglen lwyddiannus, Cymru o Blaid Affrica, a'r ymrwymiad i Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Yn Rio+20, ymrwymodd Llywodraeth Cymru hefyd i ddatganiadau ar weithio tuag at 'Chwyldro glân a'r Economi Werdd' a 'Chynllun newydd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Diddymu Tlodi'. Mae'r ddau ddatganiad yn dangos y rôl arweiniol y gall gwledydd llai fel Cymru ei chwarae.

## Rôl gwasanaethau cyhoeddus Cymru

1.14 Mae datblygu cynaliadwy yn cyd-fynd â diben sylfaenol y gwasanaeth cyhoeddus ac felly mae'r sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn rhan hanfodol o'r fframwaith sefydliadol ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae gan y gwasanaeth cyhoeddus ddylanwad mawr hefyd, fel arweinydd cymunedol, darparwr gwasanaethau a rheoleiddiwr sy'n gosod y fframwaith ar gyfer datblygu lleol a datblygu rhanbarthol ac fel cyflogwr allweddol. Mae sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn wynebu cyfres o heriau. Mae newidiadau demograffig a thechnolegol wedi cynyddu'r galw am wasanaethau a'r gost o'u darparu. Mae'r newidiadau hyn, ynghyd â'r her ariannol y mae gwasanaethau cyhoeddus bellach yn ei hwynebu, yn golygu bod angen cryfhau'r ffordd y caiff y gwasanaethau hynny eu darparu fel eu bod yn fwy effeithiol wrth wella canlyniadau ar gyfer pobl yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cefnogi'r newid hwn drwy ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus a bydd y cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn helpu i gryfhau'r rôl y gall sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ei chwarae er mwyn cyflawni eu canlyniadau mewn ffordd gynaliadwy.

## Newid y system bresennol

1.15 Er bod cynnydd amlwg wedi bod wrth sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy ers datganoli, mae'r adolygiadau annibynnol o effeithiolrwydd, arfer gorau rhyngwladol a dysgu a datblygu ers datganoli yn dangos y gall gwelliannau gael eu gwneud. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod angen sicrhau defnydd cyson, gwella dealltwriaeth ymhellach a chynnwys datblygu cynaliadwy yn fwy o fewn y drefn lywodraethu a'r broses o wneud penderfyniadau.

1.16 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n helaeth ar y cynnig i ddeddfu ar ddatblygu cynaliadwy drwy'r papur trafod a gyhoeddwyd ym Mis Tachwedd 2011 a'r ymgynghoriad dilynol ar gynigion cychwynnol ar gyfer y Bil Datblygu Cynaliadwy ym mis Mai 2012. Ceisiwyd safbwyntiau ynghylch y ffordd orau o fynd i'r afael â'r ddyletswydd newydd; rôl a swyddogaethau'r corff datblygu cynaliadwy newydd; y rhwystrau i wneud mwy o benderfyniadau hirdymor ar y cyd; tystiolaeth o ddatblygu cynaliadwy ar waith; a'r angen i gael diffiniad o ddatblygu cynaliadwy. Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn wedi defnyddio safbwyntiau a fynegwyd gan randdeiliaid mewn ymateb i'r ymgynghoriad ynghyd â safbwyntiau a ddeilliodd o waith ymgysylltu parhaus.

1.17 Dyma'r elfennau sylfaenol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth arnynt, i gryfhau'r fframwaith llywodraethu ar gyfer datblygu cynaliadwy:

- *Dyletswydd newydd* - dyletswydd gryfach sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau penodol y gwasanaeth cyhoeddus sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy fel eu prif egwyddorion trefniadol;
- *Cymorth* - sefydlu corff annibynnol ag iddo sail statudol i gynorthwyo sefydliadau â sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy a chydweithio er mwyn gwella lles Cymru;

- *Gweithredu* - drwy wahanol gamau sy'n cryfhau'r drefn lywodraethu ar gyfer datblygu cynaliadwy a chefnogi'r newid i gyflawni'r canlyniadau angenrheidiol;
- *Atebolrwydd* - trefniadau adrodd a chraffu i sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o waith sefydliadau.

1.18 Wrth gyflwyno'r Papur Gwyn hwn, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol iawn bod yn rhaid gwneud hyn fel rhan o becyn ehangach o fesurau i rymuso ac ysgogi newid cadarnhaol - rhaid iddo ganiatáu hyblygrwydd ac atebion arloesol i Gymru, gan osgoi creu biwrocratiaeth ychwanegol. Nid ymarfer 'ticio blychau' ydyw ychwaith ac er mwyn sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy yn hollol mae'n fwy na thema drawsbynciol. Fel y brif egwyddor drefniadol, dyma'r fframwaith y gall y gwasanaeth cyhoeddus sicrhau dyfodol gwell i Gymru drwyddo ac mae'n nodi sut y gall sicrhau lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor.

## Fframwaith Llywodraethu ar gyfer Datblygu Cynaliadwy

## 2. Dyletswydd Datblygu Cynaliadwy

2.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r cynnig i roi dyletswydd newydd ar wasanaeth cyhoeddus Cymru. Bydd y ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu cynaliadwy gael ei gynnwys ym mhrosesau strategol gwneud penderfyniadau a bod sefydliadau yn nodi'n glir y canlyniadau y maent am eu cyflawni. Bydd hyn yn cryfhau'r fframwaith llywodraethu yng Nghymru mewn perthynas â datblygu cynaliadwy er mwyn ei sefydlu fel y brif egwyddor drefniadol a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd well sy'n arwain at ganlyniadau clir i wella lles Cymru.

### Y Cefndir

2.2 Wrth weithio i wella lles Cymru a sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol, rhaid mynd i'r afael mewn undod â'r angen i greu swyddi hirdymor, trechu tlodi, sicrhau cydraddoldeb cyfleoedd, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a byw o fewn ein hadnoddau. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i sefydliadau'r sector cyhoeddus sicrhau y caiff y goblygiadau ar gyfer lles hirdymor a'r dimensiynau economaidd, cymdeithasol *ac* amgylcheddol eu hystyried yn y ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud. Bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd, ond mae datblygu cynaliadwy yn rhoi'r gallu i fynd i'r afael â'r materion hyn mewn ffordd gyson ac integredig i sicrhau'r canlyniadau gorau i Gymru.

2.3 Nod y cynigion o fewn y Papur Gwyn hwn yw sicrhau lle canolog i'r ystyriaeth honno o fewn y broses ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan greu fframwaith a fydd yn caniatáu arloesi a datblygu atebion wedi'u teilwra gan sefydliadau cyhoeddus Cymru.

#### (i) Y brif egwyddor drefniadol

2.4 Dyma elfennau allweddol datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol:

- ffocws clir ar *beth* y mae'r sefydliad yn ceisio ei gyflawni i gefnogi lles Cymru yn y dyfodol - y 'Canlyniadau';
- sicrhau bod penderfyniadau a wneir *ynghylch* y ffordd orau o gyflawni canlyniadau yn ystyried yn llwyr yr effaith ar les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a hirdymor.

2.5 Yn hyn o beth, mae'n ymwneud â'r ffordd y mae sefydliadau yn gwneud eu penderfyniadau strategol i sicrhau bod y penderfyniadau gorau posibl yn cael eu gwneud. Nid yw'r ddyletswydd felly'n ymwneud â chreu haen ychwanegol o fiwrocratiaeth na gosod mwy o faich ar ysgwyddau pobl. Y mae yn hytrach yn rhoi fframwaith llywodraethu gwell ar waith i Gymru yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy.

2.6 Mae'r Llywodraeth Cymru yn credu y bydd rhoi dyletswydd gryfach o ran datblygu cynaliadwy nid yn unig ar ei hun, ond hefyd ar y gwasanaeth cyhoeddus datganoledig ehangach, yn helpu i lywio a gwella'r broses o greu penderfyniadau a sicrhau lle canolog i egwyddorion craidd datblygu cynaliadwy o fewn fframwaith cyfansoddiadol Cymru. Wrth wneud hynny, bydd yn darparu fframwaith clir ac yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth yn ogystal â chysondeb a chydlyniad wrth ei ddefnyddio.

**(ii) Natur y ddyletswydd**

2.7 Wrth ddatblygu'r dull arfaethedig mewn perthynas â natur y ddyletswydd, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio’r prif egwyddorion a geir yn nogfen canlyniadau Rio+20; enghreifftiau rhyngwladol o arfer da; Strategaeth Datblygu Cynaliadwy yr UE, yr egwyddorion canllaw drafft a amlinellir gan y Cyngor Ewropeaidd; Egwyddorion y DU a Rennir; a'r rheini sy'n greiddiol i Gynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

2.8 Ceisiodd Llywodraeth Cymru safbwyntiau ar y gwahanol opsiynau ar gyfer y ddyletswydd drwy gyflwyno pedwar opsiwn: dull ymddygiadau sy'n canolbwyntio ar egwyddorion datblygu cynaliadwy; dull amcanion; cyfuniad o ymddygiadau ac amcanion; neu, un cynnig ynghylch datblygu cynaliadwy. Canlyniad yr ymgynghoriad oedd fod rhanddeiliaid, yn gyffredinol, o'r farn y dylai dull sy'n cyfuno'r ymddygiadau a'r amcanion gael ei weithredu drwy'r Bil.

2.9 Mae Llywodraeth Cymru felly'n cynnig y dylai'r ddyletswydd ysgogi'r defnydd o brif egwyddorion datblygu cynaliadwy, yn ogystal â sicrhau eglurder o ran y canlyniadau a geisir.

**Integreiddio a gweithio ar draws ffiniau**

2.10 Mae angen ystyried lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar y cyd, ynghyd â lles cenedlaethau'r dyfodol, er mwyn diogelu lles hirdymor Cymru.

2.11 Er mwyn sicrhau mai’r dull integredig hwn sydd wrth wraidd y ddyletswydd hon, cynigir bod ystyried yr effeithiau ar les economaidd, cymdeithasol *ac* amgylcheddol Cymru yn un o ofynion sylfaenol y ddyletswydd. O’r herwydd caiff penderfyniadau eu llywio gan werthfawrogiad o’r effeithiau tebygol ar bob un a'r integreiddio rhyngddynt.

**Meddwl tymor hir a phwyslais ar atal**

2.12 Fel yr adlewyrcha’r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r egwyddor o feddwl am y tymor hir, canolbwyntio ar atal a'r effaith ar genedlaethau'r dyfodol hefyd yn agweddau allweddol ar ddatblygu cynaliadwy. Wrth feddwl am y tymor hir mae'n arwain yn rhesymegol at ganolbwyntio ar atal a'r ymyriadau cynnar a all sicrhau'r manteision hirdymor mwyaf effeithiol. Er mwyn sicrhau bod ystyriaeth o'r fath yn rhan annatod o’r ddyletswydd, cynigir ystyried lles hirdymor Cymru yn ofyniad a bod anghenion cenedlaethau'r dyfodol, mesurau hirdymor a mesurau ataliol yn cael eu pwysleisio o fewn y dull hwn.

**Ymgysylltu a chymryd rhan**

2.13 Ni all y llywodraeth na chymuned ehangach y gwasanaeth cyhoeddus bennu atebion i'r heriau a wynebir ar eu pennau eu hunain. Mae gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliad yn hanfodol ac mae angen ymgysylltu’n effeithiol i gyflawni hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd fel set o egwyddorion cyffredinolar gyfer sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus sydd eisoes wedi cael cefnogaeth nifer fawr o sefydliadau'r sector hwnnw.

2.14 Mae hefyd yn hollbwysig fod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cyd-fynd â’r gofynion deddfwriaethol sydd eisoes yn bodoli, wrth gyflawni'r nod o sefydlu’n llwyr ddatblygu cynaliadwy gan osgoi ychwanegu baich ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, ddyletswyddau statudol presennol a chynlluniau’r sector statudol o fewn Deddf Llywodraeth Cymru. Ni chynigir felly bod gofyniad deddfwriaethol ychwanegol mewn perthynas ag ymgysylltiad yn cael ei gynnwys yn y ddyletswydd datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo'r Egwyddorion Cenedlaethol fel y safon o ymgysylltu y dylai sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus datganoledig ei bodloni. Cynigir hefyd y bydd gan y corff annibynnol ar gyfer datblygu cynaliadwy rôl allweddol wrth ddarparu cefnogaeth ac arweiniad ar yr egwyddor allweddol hon.

**Cwmpas rhyngwladol**

2.15 Mae effeithiau'r penderfyniadau strategol a wneir gan sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus Cymru yn estyn y tu hwnt i ffiniau Cymru. Caiff hyn ei adlewyrchu yn Strategaeth Llywodraeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd a thrwy'r ddefnyddio’r Ôl Troed Ecolegol fel un o'r pum prif ddangosydd o ran datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Yn yr un modd, mae camau pobl eraill y tu allan i Gymru yn effeithio ar les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen ystyried yr effeithiau y tu allan i Gymru gan na ellir sôn am les Cymru ar ei phen ei hun. Mae hyn yn rhan bwysig o’r modd yr eir i’r afael â datblygu cynaliadwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod yr elfen hon yn cael ei chynnwys yn y fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru, mewn modd rhesymol a chymesur ac o fewn cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**(iii) Diffinio datblygu cynaliadwy**

2.16 Wrth gynnig dyletswydd newydd mewn perthynas â datblygu cynaliadwy, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen egluro'r hyn a olygir, sef rhywbeth a bwysleisiwyd gan randdeiliaid wrth ymateb i'r ymgynghoriad. Nodir diffiniad Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy ym mhennod 1, ond yn yr un modd mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y ddealltwriaeth a'r dehongliad manwl o ddatblygu cynaliadwy wedi newid dros amser.

2.17 Wrth amlinellu natur y ddyletswydd uchod, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid dilyn arferion rywle arall, lle y caiff yr agweddau cyffredin ar ddatblygu cynaliadwy eu nodi ar wyneb deddfwriaeth. Mae enghreifftiau rhyngwladol eraill yn dewis defnyddio diffiniad Brundtland o ddatblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny, mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn bwysig nodi'n glir yr agweddau

economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a hirdymor ar ddatblygu cynaliadwy. Hefyd, cynigir y byddai diffiniad o'r fath yn cael ei ategu ymhellach gan ganllaw statudol i gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth. Byddai hwn yn cael ei gefnogi ymhellach gan ofynion deddfwriaethol presennol a deddfwriaeth arfaethedig o fewn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth sy'n diffinio’r agweddau allweddol ar les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

2.18 Yn hyn o beth, mae datblygu cynaliadwy wrth galon nid yn unig y cynigion ar gyfer y Bil Datblygu Cynaliadwy, ond hefyd gynigion ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer deddfwriaeth. Rôl y Bil Datblygu Cynaliadwy felly yw sefydlu fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy, a fydd hefyd yn integreiddio deddfwriaeth bresennol a deddfwriaeth yn y dyfodol ac a fydd yn ddigon hyblyg i ymateb i anghenion yn y dyfodol.

### (iv) Sicrhau canlyniadau

2.19 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y bydd datblygu cynaliadwy yn berthnasol i fwy na dim ond ansawdd y broses gwneud penderfyniadau. Mae hefyd angen sylfaenol i sicrhau bod ffocws clir ar beth y mae sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus yn ceisio ei gyflawni, gan gefnogi lles Cymru yn y dyfodol. Er mwyn ysgogi'r newid sydd ei angen i sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy, rhaid cael perthynas glir rhwng y broses strategol o wneud penderfyniadau o fewn gwasanaeth cyhoeddus a'r canlyniadau y mae'r sefydliadau yn gweithio tuag atynt sy'n adlewyrchu'r arferion gorau presennol.

2.20 Fodd bynnag, fel yr adlewyrchai’r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae anawsterau sylweddol ynghlwm wrth osod un cynnig neu amcanion penodol drwy ddeddfwriaeth. Roedd yr ymatebion yn pwysleisio'r angen i sefydliadau gael yr hyblygrwydd i nodi'r atebion mwyaf priodol ar gyfer eu hamgylchiadau penodol ac i'r fframwaith allu cael ei addasu yn unol â’r hyn a ddysgir yn y dyfodol.

2.21 Er mwyn sicrhau bod cysylltiad clir rhwng prosesau gwneud penderfyniadau a'r canlyniadau i Gymru, cynigir bod y ddeddfwriaeth yn cynnwys gofyniad i sefydliadau nodi'n glir y canlyniadau y maent am eu cyflawni. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau'r hyblygrwydd gofynnol a bwysleisiwyd gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad, ni fydd y ddeddfwriaeth yn nodi manylion y canlyniadau y dylai pob sefydliad fod yn gweithio tuag atynt.

2.22 Wrth roi ar waith ofyniad ar gyfer canlyniadau, mae angen sicrhau hefyd fod ffordd o fesur cynnydd tuag at eu cyflawni. Mae dangosyddion sy'n monitro cynnydd tuag at gyflawni’r canlyniadau felly'n allweddol ac mae disgwyliad clir y bydd system o'r fath ar waith. Bydd hyn yn sicrhau bod mesurau cynnydd yn bodoli sy'n dangos sut y mae penderfyniadau strategol yn cyfrannu tuag at ganlyniadau sy'n gwella lles Cymru. Gellir gweld hyn er enghraifft yn null Llywodraeth Cymru o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu a'r dull cynllunio integredig a amlinellir isod.

## (v) Cwmpas y Ddyletswydd

2.23 Wrth ddiffinio cwmpas y ddyletswydd arfaethedig, y nod yw sicrhau ei bod yn cael effaith ymarferol heb fod yn ymarfer ticio blwch nag yn ychwanegu baich biwrocrataidd. Yn y papur ymgynghori mynegwyd ei bod yn well sicrhau hyn drwy gynnwys y penderfyniadau lefel uchel sydd â'r mwyaf o ddylanwad dros ymddygiad sefydliadol. Roedd nifer o'r rhai a ymatebodd yn cefnogi'r dull hwn, ond wrth wneud hynny, pwysleisiwyd mai'r brif flaenoriaeth oedd i ba raddau y byddai'r dull yn newid ymddygiad ar draws y sector cyhoeddus ac yn sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy. Er mwyn gwneud hynny, rhaid canolbwyntio ar wella'r ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud. Gall y broses o wneud penderfyniadau gynnwys gwahanol gamau sydd naill ai'n wirfoddol neu'n ofynnol yn ôl y gyfraith, megis casglu tystiolaeth, gwerthuso opsiynau, ymgynghori ac asesu effaith. Cynigir felly y dylai'r ddyletswydd fod yn gymwys i'r prosesau strategol o wneud penderfyniadau yn hytrach nag i ddogfennau penodol lefel uchel er mwyn sefydlu'n llwyr egwyddorion datblygu cynaliadwy.

### Prosesau strategol o wneud penderfyniadau

2.24 Mae gan bob sefydliad ei systemau a'i brosesau manwl ei hun ar gyfer gwneud penderfyniadau ac mae sicrhau bod sefydliadau yn gallu dod o hyd i'r atebion sy'n addas i'w hamgylchiadau yn rhan ganolog o'r dull. Ni chynigir felly bod y ddeddfwriaeth yn cael ei defnyddio i bennu'r ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud a'r nod yw bod y ddyletswydd yn gymwys i'r prosesau hynny o wneud penderfyniadau sydd â rôl strategol allweddol wrth gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

2.25 Cynigir felly bod y ddyletswydd yn canolbwyntio ar y polisïau a'r prosesau cynllunio corfforaethol gan mai'r rhain yw'r prosesau sy'n canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau sefydliad ac felly, y rheini a fydd fwyaf effeithiol wrth sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy. Bydd y dull hwn yn osgoi ychwanegu mwy o fiwrocratiaeth ac mae'n canolbwyntio ar y prosesau sylfaenol sy'n arwain y ffordd y caiff sefydliad ei weithredu yn hytrach nag ychwanegu proses arall. Byddai'n cynnwys prosesau gwneud penderfyniadau, er enghraifft, sy'n arwain at gynlluniau corfforaethol a strategaethau corfforaethol. Cynigir hefyd ei fod yn cynnwys cynllunio strategol cydweithredol a chysylltiadau â'r bwriad i atgyfnerthu ac egluro'r rôl statudol cynllunio integredig a nodir isod.

2.26 Byddai'r ddyletswydd hefyd yn gymwys i'r broses polisïau mewn sefydliad ac er bod nifer o randdeiliaid am weld penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gyllideb a chaffael yn cael eu cynnwys yn benodol yn y ddyletswydd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd canolbwyntio ar y prosesau strategol o wneud penderfyniadau sy'n arwain ac yn cael eu gweithredu drwy'r prosesau cyllideb a chaffael yn sicrhau'n well yr effaith a fwriedir. Yn hynny o beth, byddai'r ddyletswydd er enghraifft yn gymwys i'r broses o wneud penderfyniadau a ddefnyddir i ddatblygu polisi caffael sefydliad, a sicrhau bod lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a lles hirdymor wedi cael eu hystyried yn y broses o wneud penderfyniadau.

2.27 Nid yw'n fwriad pennu'r prosesau manwl a ddylai fod ar waith, na pha newidiadau sydd angen eu gwneud i brosesau presennol. Nid yw'n fwriad ychwaith i'r ddyletswydd fod yn gymwys i'r penderfyniadau a wneir, ond i sicrhau bod datblygu

cynaliadwy wedi cael ei ystyried yn y prosesau strategol o wneud penderfyniadau a arweiniwyd atynt.

### (vi) Adrodd

2.28 Dylai sefydliadau fod yn dryloyw ac yn atebol yn y ffordd y maent yn defnyddio datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol. Er mwyn cydymffurfio â'r nod o sefydlu'n llwyr egwyddorion datblygu cynaliadwy, cynigir y dylai'r mecanwaith fod drwy eu trefniadau adrodd presennol yn hytrach nag ychwanegu fframwaith adrodd annibynnol arall. Er mwyn cryfhau'r gofyniad hwn, fodd bynnag, cynigir bod y ddeddfwriaeth yn gorfodi sefydliadau y mae’r ddyletswydd yn berthnasol iddynt i ddangos cydymffurfiaeth drwy eu trefniadau adrodd presennol. Wrth wneud hynny, disgwylir y bydd sefydliadau yn adrodd bob blwyddyn o leiaf.

2.29 Er mwyn cynorthwyo sefydliadau i adrodd ar y ddyletswydd, dylai Gweinidogion Cymru gael y pŵer i gyhoeddi canllawiau statudol, i adlewyrchu unrhyw safonau adrodd ac arfer gorau a ystyrir yn berthnasol ac i sicrhau cydlyniad a chysondeb â threfniadau adrodd presennol. Byddai felly'n ofynnol i sefydliadau y mae’r ddyletswydd yn berthnasol iddynt ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Fel yr amlinellir isod, bydd gan y corff annibynnol ar gyfer datblygu cynaliadwy rôl allweddol hefyd wrth gefnogi sefydliadau i weithio ar draws ffiniau sefydliadau ac integreiddio eu dull casglu tystiolaeth a chyfuno eu sylfaen o dystiolaeth. Bydd y corff hefyd yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi sefydliadau i fodloni eu gofynion adrodd.

2.30 Bydd yn bwysig i sefydliadau sicrhau bod y broses strategol o wneud penderfyniadau y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddi yn cael ei chefnogi gan dystiolaeth. Fodd bynnag, gan ystyried bod systemau a gofynion statudol eisoes ar waith i gasglu tystiolaeth er mwyn llywio penderfyniadau, ni chynigir gofynion ychwanegol i gasglu tystiolaeth. Fodd bynnag, er mwyn dangos cydymffurfiaeth â threfniadau adrodd presennol, bydd angen i'r sefydliadau dynnu ar dystiolaeth sy'n adlewyrchu agweddau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol ac agweddau hirdymor.

### (vii) Y ddyletswydd Datblygu Cynaliadwy a gweithio ar y cyd

2.31 Bydd y ddyletswydd Datblygu Cynaliadwy yn gymwys i sefydliadau penodol. Fodd bynnag, mae gofyn cynyddol i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus weithio gyda’i gilydd ar lefel leol a lefel ranbarthol er mwyn cyflawni canlyniadau a rennir. Gall hyn fod ar sawl ffurf megis cynllunio ar y cyd, cydgysylltu gwasanaethau, cydleoli timau, rhannu gwybodaeth bersonol, systemau a gwasanaethau a rennir, a chyllidebau cyfun. Mae'r cydweithio hwn yn arbennig o bwysig wrth weithio i gyflawni canlyniadau a rennir, sydd wrth graidd y dull datblygu cynaliadwy. Mae cydweithio'n effeithiol ar draws y gwasanaethau cyhoeddus hefyd yn hanfodol i sicrhau pwyslais ar egwyddorion datblygu cynaliadwy megis atal ac ymyrraeth gynnar, pan fydd arwyddion cynnar o niwed neu angen ychwanegol yn ysgogi camau ar y cyd gan sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus.

2.32 Ar y lefel leol, y Byrddau Gwasanaethau Lleol sydd bellach yn cynllunio ar gyfer canlyniadau a rennir drwy gynlluniau integredig unigol, a fydd ar waith ym

mhob ardal erbyn mis Ebrill 2013. Eu prif nodweddion yw eu bod yn ddull cynllunio strategol er mwyn cwmpasu'r ystod lawn o ganlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer ardal benodol. Maent yn seiliedig ar ddadansoddi ystod eang o dystiolaeth a rennir ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Maent yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn amodol ar ymgysylltu dwys gyda dinasyddion a chymunedau a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo drwy brosesau cymeradwyo corfforaethol y sefydliadau sy'n aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Fel arfer, bydd y rhain yn cynnwys yr awdurdod lleol, iechyd, yr heddlu, y trydydd sector ac eraill. Bwriedir i’r cynlluniau fynd i'r afael yn benodol ag anghenion pobl fregus a chymunedau dan anfantais a symud adnoddau at gamau atal ac ymyrraeth gynnar.

2.33 Er mwyn sicrhau bod y ddyletswydd yn berthnasol i’r math hwn o gydweithredu a'i fod yn ysgogwr effeithiol ar gyfer diwygio'r gwasanaeth cyhoeddus, bydd Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i ddeddfu drwy'r Bil Datblygu Cynaliadwy i roi sylfaen statudol i'r fframwaith cynllunio integredig sengl. Ar hyn o bryd caiff ei reoli gan nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth, ond bydd ei roi o fewn y Bil hwn yn symleiddio ac yn rhesymoli'r fframwaith deddfwriaethol presennol a diffinio'n glir ei le o fewn y fframwaith llywodraethu sy'n cael ei greu i sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd symleiddio’r system gynllunio strategol leol, drwy gynllunio integredig, yn sicrhau bod egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth wraidd cydweithredu o fewn y gwasanaeth cyhoeddus. Bydd hefyd yn rhoi'r symlrwydd, yr eglurder a'r dulliau sydd eu hangen ar bartneriaid lleol i wella eu cymunedau.

### (viii) Y sefydliadau sy’n ddarostyngedig i’r ddyletswydd

2.34 Mae nifer o sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru eisoes yn cymryd camau cadarnhaol i weithredu datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd dyletswydd statudol newydd ar sefydliadau sector cyhoeddus yn cyfuno cynnydd a wneir gan sefydliadau mwy blaengar, annog sefydliadau eraill i feithrin gallu a hefyd hyrwyddo cysondeb defnydd mewn ymateb i'r gwersi a ddysgwyd ers datganoli. Bydd hyn yn gwella trefn lywodraethu effeithiol y sector cyhoeddus yng Nghymru, cadw datblygu cynaliadwy wrth galon y cyfansoddiad a darparu rhwydwaith ehangach ar gyfer rhannu arfer da, a gefnogir gan gorff datblygu cynaliadwy statudol.

### Dethol y sefydliadau

2.35 Mae'r sefydliadau y cynigir y bydd y ddyletswydd yn berthnasol iddynt wedi'u dethol ar sail y ffaith y bydd eu cylch gwaith neu eu swyddogaethau'n sicrhau'r effaith fwyaf ar les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru. Hwy hefyd yw'r rhai sydd â'r swyddogaethau polisi strategol a’r swyddogaethau cynllunio corfforaethol. Cynigir bod y sefydliadau hyn yn cael eu rhestru ar wyneb y Bil.

2.36 Ni chynigir, fodd bynnag, fod y ddyletswydd datblygu cynaliadwy yn cael ei hestyn i gyrff cynghori, tribiwnlysoedd a chyrff arolygu gan nad oes ganddynt swyddogaethau gweithredol ac nid ydynt yn gwneud penderfyniadau strategol. Er bod hyn yn golygu na fyddai'r ddyletswydd yn berthnasol i'r corff datblygu cynaliadwy newydd, bwriedir sicrhau rhwymedigaeth glir yn pennu bod yn rhaid iddo weithredu

yn unol â'r egwyddorion sydd ynghlwm wrth y ddyletswydd er mwyn dangos arweiniad wrth sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy.

2.37 Cynigir y byddai'r ddeddfwriaeth yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy is-ddeddfwriaeth, ychwanegu, diwygio neu ddileu manylion ar y rhestr i sicrhau'r hyblygrwydd a'r gwaith prawfesur y gallai fod angen ei wneud ar gyfer y dyfodol. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, bwriedir sicrhau gofyniad i ymgynghori'n ffurfiol ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig i'r rhestr o sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd. Byddai'r pŵer hwn yn eithrio'n benodol gyrff ymchwilio neu gyrff rheoleiddio a thribiwnlysoedd o’r hwn fel ei fod yn cyd-fynd â'i gwmpas bwriedig.

| **Tabl 1 - Y sefydliadau y cynigir eu bod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd** |
|---|
| - Llywodraeth Cymru<br>- Cyfoeth Naturiol Cymru<br>- Llyfrgell Genedlaethol Cymru<br>- Amgueddfa Cymru<br>- Chwaraeon Cymru<br>- Cyngor Celfyddydau Cymru<br>- Awdurdodau Lleol<br>- Awdurdodau Tân ac Achub<br>- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol<br>- Ymddiriedolaethau'r GIG<br>- Byrddau Iechyd Lleol<br>- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>- Sefydliadau Addysg Uwch<br>- Corfforaethau addysg bellach<br>- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig<br>- Cynghorau Tref a Chymuned |

### (ix) Yr effaith ar y ddyletswydd bresennol ynghylch datblygu cynaliadwy

2.38 Mae cynnig Llywodraeth Cymru ar gyfer dyletswydd ar y sector cyhoeddus yng Nghymru, sy'n sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy fel y prif egwyddorion trefniadol, hefyd yn estyn i Lywodraeth Cymru ei hun. Er mwyn cyflawni'r dull cyson hwn a diogelu safle'r ddyletswydd newydd o fewn fframwaith cyfansoddiadol Cymru, byddai Llywodraeth Cymru yn ffafrio rhoi'r ddyletswydd newydd a chryfach hon i Weinidogion Cymru o fewn Deddf Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn disodli'r ddyletswydd bresennol yn adran 79 i hyrwyddo datblygu cynaliadwy (drwy gynllun), â'r ddyletswydd newydd a fydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a hirdymor Cymru o fewn ei phrosesau strategol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

2.39 Nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fodd bynnag, y cymhwysedd deddfwriaethol i ddiwygio'r adran berthnasol o Ddeddf Llywodraeth Cymru. O'r herwydd mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Lywodraeth y DU a fyddai modd estyn cymhwysedd y Cynulliad ar gyfer y diben hwn.

## 3. Corff Annibynnol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy

3.1 Amlinella'r bennod hon gynigion Llywodraeth Cymru ynghylch corff annibynnol i Gymru ar gyfer datblygu cynaliadwy. O ystyried y newid sydd ei angen ar draws sector cyhoeddus Cymru bydd rhagor o angen am fecanweithiau ar gyfer cefnogi sefydliadau. Yn ogystal â'r cynigion ar gyfer atebolrwydd (a amlinellir ym Mhennod 5), a chamau ar gyfer gweithredu (a amlinellir ym Mhennod 4) mae angen sylfaenol i sicrhau bod cymorth ac arweiniad o safon uchel ar gael ar gyfer hybu'r newid a darparu rôl integreiddio allweddol.

### (i) Rôl a swyddogaethau

3.2 Roedd profiad Llywodraeth Cymru ar y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy a mewnbwn y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy yn sail i'r cynigion ar gyfer y corff newydd. Rydym hefyd wedi adlewyrchu nodweddion allweddol cynghorau cenedlaethol ar gyfer datblygu cynaliadwy a bennwyd yng nghynhadledd Rio +20, gan gynnwys yr angen i sicrhau cynrychiolaeth ar lefel uchel ar draws sectorau; bod yn annibynnol ac yn ddigon cadarn i fod yn feirniadol o'r Llywodraeth pan fo angen; cyfrifoldeb am argymell a monitro dangosyddion allweddol o gynnydd; canolbwyntio ar ddatrys problemau; cyflwyno dull amlddisgyblaethol a galluogi cydweithredu ar draws sectorau; sicrhau ymgysylltu sifil cadarn i ategu ei rôl; a bod yn sefydlog ar gyfer yr hirdymor ag adnoddau sefydlog.

3.3 Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch modelau posibl ar gyfer y corff, er enghraifft wrth weithredu fel ombwdsmon sy'n gwasanaethu dinasyddion, gorfodi hawliau ac ymdrin â gwaith achos penodol neu graffu a dwyn i gyfrif sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ynghylch datblygu cynaliadwy. Pwysleisiodd yr ymatebion yr angen i rôl y corff gynnwys cynnig cymorth, drwy gyngor ac arweiniad arbenigol, gan gydnabod bod angen datblygu sylfaen wybodaeth ynghylch sut y gall sefydliadau cyhoeddus sefydlu datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol.

### (ii) Cefnogi

3.4 Prif ddiben y corff newydd fydd cefnogi sefydliadau i sefydlu datblygu cynaliadwy fel eu prif egwyddor drefniadol a hwyluso cydweithredu a chydweithio o fewn y gwasanaeth cyhoeddus a chymdeithas ehangach Cymru i gyflawni'r nod hwnnw.

3.5 Fel yr amlinellir ym Mhennod 5, mae sefydlu atebolrwydd o fewn y fframwaith presennol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cyd-fynd yn well â'r nod o sefydlu'n llwyr ddatblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol. O'r herwydd mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai rôl corff gynnwys darparu gwerth ychwanegol wrth gefnogi'r newid a hwyluso integreiddio o fewn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Wrth wneud hynny bydd yn chwarae rôl arwain allweddol ar gyfer datblygu cynaliadwy ac yn gweithredu fel eiriolwr annibynnol ar gyfer datblygu cynaliadwy.

3.6 Wrth ddarparu'r cymorth hwn, dylai'r Corff allu herio'n adeiladol sefydliadau lle y bo'n briodol er mwyn gwella'r modd y maent yn sefydlu datblygu cynaliadwy fel eu

prif egwyddor drefniadol. Bydd y corff hwn yn chwarae rhan gynnull bwysig wrth gefnogi cydweithredu rhwng sefydliadau, gan bwysleisio dull integredig a chydweithredol o fynd i'r afael â datblygu cynaliadwy gan wasanaeth cyhoeddus Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod yr angen parhaus am eiriolwr annibynnol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol sy'n seiliedig ar arferion gorau rhyngwladol ac sy'n agwedd allweddol ar ddatblygu cynaliadwy. O'r herwydd cynigir y bydd y corff yn chwarae rhan allweddol o ran hyn drwy lunio adroddiad ar ran cenedlaethau'r dyfodol a fyddai'n cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

3.7 Mater i'r corff fydd pennu'r ffordd orau o gyflawni'r swyddogaethau craidd hyn. Gallai hyn gynnwys defnyddio astudiaethau achos perthnasol ac adroddiadau cynnydd ymchwil a chyffredinol, sy'n anelu'n benodol at lefelau strategol. Trwy wneud hyn bydd angen i'r corff ystyried y canllawiau statudol a gaiff eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

3.8 Yn ogystal â'r gwasanaeth cyhoeddus, dylai'r corff hefyd chwarae rôl wrth ddarparu'r cymorth hwn i sefydliadau eraill yng Nghymru. Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau nad yw'r holl bwyslais ar y gwasanaeth cyhoeddus ac yn helpu i annog pobl i rannu gwybodaeth ac arferion da rhwng sectorau. Yn y modd hwn, bydd y corff yn anelu at sicrhau gwelliant mesuradwy i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl yng Nghymru a lles cenedlaethau'r dyfodol.

3.9 Bydd angen i'r dulliau gweithredu y bydd y corff yn eu defnyddio gael eu datblygu wrth i'w rôl gael ei ddatblygu. Ni fyddai'n briodol i Lywodraeth Cymru bennu ar wyneb y Bil nac mewn canllawiau y dulliau y dylai eu defnyddio gan y gallai hyn gyfyngu ar ei hannibyniaeth a'i gallu i arloesi. Mae caniatáu i sefydliadau bennu atebion sy'n briodol i'w hamgylchiadau yn egwyddor allweddol wrth gymhwyso'r ddyletswydd yn gyffredinol a dylai hyn hefyd fod yn berthnasol i'r corff o ran sut y mae'n cynghori, yn rhoi cyfarwyddyd ac yn cefnogi sefydliadau’r gwasanaeth cyhoeddus.

**Cydweithredu ar draws sectorau a rhannu arbenigedd**

3.10 Bydd hi'n gryn her i gorff cymharol fach gefnogi holl ystod y sefydliadau sy’n darparu gwasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i'r corff ddwyn ynghyd sefydliadau'r sector cyhoeddus a defnyddio'r hyn y gallant ei gynnig gan y bydd angen iddo fanteisio ar ffynonellau eraill o arbenigedd er mwyn darparu cymorth ar gyfer pob agwedd ar ddatblygu cynaliadwy.

3.11 Dylai'r Corff hefyd fanteisio ar arferion gorau rhyngwladol a hefyd ar arbenigedd a gwybodaeth o'r tu allan i Gymru. Gallai hyn fod ar lefel y DU, yr UE neu ar lefel ryngwladol. Bydd disgwyl i'r corff hefyd ddefnyddio cysylltiadau o'r ffynonellau hyn ar gyfer darparu'r cyngor, y cyfarwyddyd a'r cymorth gorau posibl i sefydliadau’r gwasanaeth cyhoeddus. Yn yr un modd, mae nifer o sefydliadau yn y trydydd sector a'r sector preifat wedi datblygu mecanweithiau effeithiol ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy. Dylai'r corff geisio gweithredu'r arferion gorau sydd wedi deillio o'r ffynonellau hyn.

### (iii) Datblygu polisi a chyngor

3.12 Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bolisi ym maes datblygu cynaliadwy a bydd y cynigion hyn yn cynnal y sefyllfa hon. Eto i gyd, yn y gorffennol mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy wedi gweithredu fel corff sy’n cynghori ac yn cyfrannu’n allweddol ynghylch datblygu polisïau. Mae’r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy yn ymgymryd â’r gwaith hwn ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd y corff newydd yn parhau â'r gwaith hwn, gan gefnogi Llywodraeth Cymru.

3.13 Rhagwelir hefyd y gallai'r corff estyn cymorth, cyngor a chyfarwyddyd i'r sector cyhoeddus ehangach ac i sefydliadau eraill lle y ceir cyfle i sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy. Bydd angen i'r corff gynnig cyngor ynghyd â heriau annibynnol adeiladol i sefydliadau er mwyn eu cynorthwyo i sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy. Ni ddylai hyn, fodd bynnag, ddyblygu'r rôl y mae cyrff archwilio presennol eisoes yn ei wneud o fewn y fframwaith atebolrwydd ar gyfer datblygu cynaliadwy.

### (iv) Aelodaeth

3.14 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai'r corff gael ei arwain gan Gomisiynydd a'i gefnogi gan ysgrifenyddiaeth a staff cymorth sy'n dangos natur ryngddisgyblaethol datblygu cynaliadwy a'r angen i ganolbwyntio ar integreiddio'r lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a'r lles hirdymor. Byddai Comisiynydd unigol a fyddai'n ben ar y sefydliad yn sicrhau eglurder a ffocws penodol i waith y corff. Gall unigolyn o'r fath fod yn ffigur amlwg ar gyfer y corff a'i gynrychioli, gan hefyd ddarparu'r arweiniad sydd ei angen i hyrwyddo gwaith y Corff. O ystyried pa mor eang yw cwmpas datblygu cynaliadwy, fodd bynnag, bydd angen cymorth ar y Comisiynydd a allai gael ei ddarparu drwy banel cynghori. Gallai'r panel hwn ei gynghori ynghylch agweddau allweddol ar ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

3.15 Mae cyfres o ddeg egwyddor allweddol wedi'i llunio ar sail Dogfen Fframwaith y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Diben y gyfres hon yw helpu i ddiffinio cysylltiadau da rhwng y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad B). Mae'r rhain wedi'u cydnabod fel enghraifft o arfer da a chynigir bod yr egwyddorion hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer llywio'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r corff.

3.16 Golyga cwmpas y gwaith o sicrhau mai datblygu cynaliadwy fydd y brif egwyddor drefniadol ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a'r nod uchelgeisiol sydd ynghlwm â hyn yw nad yw'n realistig cynnal arbenigedd sy'n berthnasol i bob agwedd ar ddatblygu cynaliadwy. O'r herwydd, prif werth y corff fydd ei allu i ychwanegu gwerth ac i ddwyn ynghyd sefydliadau, ffynonellau o dystiolaeth ac arferion gorau er mwyn hwyluso'r gwaith o weithredu'r ddyletswydd.

3.17 Dylai grŵp craidd y corff o staff neu arbenigwyr, fodd bynnag, adlewyrchu elfennau allweddol datblygu cynaliadwy. Bydd cynnal y ffocws craidd hwn yn cynorthwyo'r corff i flaenoriaethu ei waith o fewn y cwmpas clir hwn.

## (v) Annibyniaeth

3.18 Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo yn ei Rhaglen Lywodraethu i greu corff annibynnol i Gymru ar gyfer datblygu cynaliadwy. Bwriedir cyflawni hyn drwy'r rhaglen waith, ei gallu i gyflwyno sylwadau ynghyd â'r prosesau sydd ynghlwm â phenodi a diswyddo aelodau.

### Rhaglen waith

3.19 Mae'n bwysig fod gan y corff yr hyblygrwydd i ganfod atebion sy'n briodol i'w amgylchiadau drwy ei raglen waith. Manteisiwyd ar y profiad a gafwyd wrth noddi'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy i ystyried dulliau o sicrhau bod y corff yn gorff annibynnol. Yn unol â'r profiad hwn, cynigir y byddai'r blaenoriaethau strategol yn cael eu cymeradwyo'n annibynnol ar y Gweinidogion, ond byddai Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r manylion ynghylch sut y cânt eu gweithredu mewn blwyddyn benodol (a'r ymrwymiad cyllid cysylltiedig). O ran y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, gwnaeth hyn alluogi Llywodraeth Cymru i'w gomisiynu i ymgymryd â darnau gwaith penodol a adlewyrchai flaenoriaethau'r llywodraeth. Gwnaeth hyn hefyd sicrhau'r hyblygrwydd fel y gallai'r Comisiwn ymgymryd â gwaith y tybiai ei fod yn waith pwysig.

3.20 O'r herwydd byddai'r corff yn datblygu ei raglen waith a'i flaenoriaethau strategol yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, cyn eu cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo. Eto i gyd, dylid sicrhau rhyw lefel o gytundeb gan y Gweinidogion er mwyn sicrhau bod y canlyniadau a gefnogir gan y corff yn cyd-fynd â chanlyniadau'r Llywodraeth; i sicrhau llwybr archwilio ariannol i lywio'r defnydd priodol o arian cyhoeddus; ac i roi sicrwydd yr eir i'r afael â'r canlyniadau ar gyfer y corff yn unol ag awdurdod y Gweinidogion.

### Cyflwyno sylwadau a chynnig cyngor

3.21 Wrth gefnogi'r newid sydd ei angen bydd gofyn i'r corff feddu ar y pwerau ar gyfer cyflwyno sylwadau, fel y gwêl yn dda, ynghylch materion sy'n gysylltiedig â datblygu cynaliadwy o fewn ei gylch gwaith. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r trefniadau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer Comisiynwyr eraill Cymru. Wrth wneud hyn dylai gyfeirio at faterion sy'n berthnasol i atebolrwydd ynghylch datblygu cynaliadwy a thrwy gyflawni ei swyddogaethau.

### Penodiadau

3.22 Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y prosesau penodi a ddefnyddir ar gyfer Comisiynwyr presennol Cymru, sef Comisiynydd y Gymraeg, y Comisiynydd Pobl Hŷn a’r Comisiynydd Plant, fel sail ar gyfer y corff newydd. Caiff pob un ei benodi gan Brif Weinidog Cymru, ar sail argymhellion panel penodi yn dilyn ymarfer recriwtio agored. Dyma ddull sydd eisoes wedi'i brofi ac y mae modd dibynnu arno fel dull sy'n sicrhau y caiff ymgeiswyr eu trin mewn modd teg a chyson.

3.23 Yr un yw'r drefn yn ogystal ar gyfer diswyddo Comisiynwyr. Gwneir hyn gan amlaf yn sgil dymuniad i ddod â'r penodiad i ben, lle y mae camymddygiad wedi digwydd, neu mewn achosion o afiechyd meddyliol neu gorfforol. Dim ond o dan yr

amgylchiadau hyn y byddai Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld Gweinidogion Cymru yn ymwneud â'r broses benodi, er mwyn sicrhau nad yw unigolion yn teimlo na allant feirniadu Llywodraeth Cymru yn sgil ofn y gallent golli eu swydd.

3.24 Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r broses Penodiadau Cyhoeddus ynghyd ag argymhelliad gan banel arbenigol i Weinidogion Cymru wrth benodi Comisiynydd y corff.

### (vi) Trefniadau adrodd a sylwadau

3.25 I sicrhau bod y corff newydd yn dryloyw ac yn atebol i Weinidogion Cymru dylai lunio adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau i'w ystyried gan Weinidogion Cymru a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys gwybodaeth am sut y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau ynghyd â'i farn ynghylch prif ffrydio datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol yng Nghymru, neu ei sylwadau ynghylch hyn. Bydd pwyslais arbennig ar wasanaeth cyhoeddus Cymru.

3.26 Cred Llywodraeth Cymru y gallai'r corff newydd chwarae rhan bwysig wrth fynegi safbwynt annibynnol ynghylch hynt y gwaith o gyflawni datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Dylai lunio o bryd i'w gilydd, ac o leiaf unwaith bob pum mlynedd, adroddiad ar ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru a'r newyddion diweddaraf yn ei gylch.

3.27 Bydd gosod y ddau adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dangos ymrwymiad i dryloywder ac atebolrwydd mewn prosesau adrodd.

### Y berthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a chyrff archwilio eraill

3.28 Bydd y cynigion i gynnwys datblygu cynaliadwy o fewn trefniadau archwilio presennol yn darparu ffynhonnell bwysig o wybodaeth a manylion ynghylch graddau, a natur y gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy. Bydd y dystiolaeth a gesglir drwy'r broses hon yn werthfawr i'r corff petai'n dymuno:

- adrodd yn fwy eang ynghylch cynnydd Cymru wrth ddatblygu'n genedl fwy cynaliadwy;
- adrodd ar gynnydd o ran prif ffrydio syniadau ynghylch datblygu cynaliadwy o fewn rhannau penodol o'r sector cyhoeddus;
- adrodd ar brif ffrydio syniadau ynghylch datblygu cynaliadwy mewn perthynas â rhai materion; neu
- cynghori Gweinidogion Cymru.

3.29 Dylai'r corff datblygu cynaliadwy allu cydweithredu ag Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch materion sy'n berthnasol i brif ffrydio datblygu cynaliadwy â sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus. Bydd hyn yn sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei defnyddio mewn modd effeithiol.

## Y berthynas â Chomisiynwyr eraill

3.30 Mae natur gyffredinol datblygu cynaliadwy yn creu cyfle i integreiddio'n llawn themâu trawsbynciol fel cydraddoldeb, y Gymraeg a mynd i'r afael â thlodi. Dylai'r corff chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r gwaith o gyfuno'r themâu hyn er mwyn sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy. Bydd hi'n bwysig sicrhau bod Comisiynwyr a chynghorwyr perthnasol o'r sectorau hyn yn cael eu cynnwys yn ei waith a gall hyn hefyd helpu i sicrhau rhagor o eglurder i'r sector cyhoeddus ehangach ynghylch eu cyfrifoldebau. Er enghraifft, gallai'r corff elwa ar brofiadau'r Comisiynydd Pobl Hŷn wrth ddatblygu ei fesurau ynghylch lles a gallai'r Comisiynydd Pobl Hŷn hefyd elwa ar fewnbwn gan y corff mewn perthynas â thueddiadau hirdymor allweddol.

## Aelodau ex officio

3.31 Gallai fod modd galluogi Comisiynwyr eraill Cymru fel Comisiynydd y Gymraeg, y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant i gefnogi gwaith y corff drwy eu gwneud yn aelodau ex officio. Byddai hyn yn eu galluogi i ddod yn aelodau o'r corff yn rhinwedd y ffaith eu bod yn dal swydd arall. Gallai aelodau o'r fath fod â'r un hawliau ag aelodau eraill gan gynnwys cyflwyno argymhellion neu bleidleisio. Byddai derbyn aelodau ychwanegol ar y sail hon yn cyd-fynd yn fwy effeithiol â chwmpas eang y ddyletswydd a byddai hefyd yn adlewyrchu rôl y corff o ran yr egwyddor integreiddio sydd ynghlwm â datblygu cynaliadwy. Nid dim ond aelodau ex officio fyddai'n cael cymryd rhan, fodd bynnag. Byddai modd gwahodd cynrychiolwyr eraill i fynegi safbwyntiau gwahanol, lle y bo angen. Dylai'r unigolion hyn gael eu hesgusodi o'r broses derfynol ar gyfer gwneud penderfyniad, ond bydd cyfle ganddynt i gymryd rhan mewn trafodaethau.

# 4. Gweithredu

4.1 Amlinella'r bennod hon y dull arfaethedig o weithredu'r ddeddfwriaeth, ac yn arbennig yr argymhelliad i gyflwyno'r ddyletswydd yn raddol i sefydliadau penodedig a'r dull arfaethedig o sefydlu'r corff.

## i) Cyflwyno'r ddyletswydd yn raddol

4.2 Cynigir y bydd y ddyletswydd yn cael ei chyflwyno'n raddol er mwyn sicrhau bod digon o gyfarwyddyd a chyngor ar gael oddi wrth y corff annibynnol ar gyfer datblygu cynaliadwy a Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi'r sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd. Er mwyn sicrhau cysondeb wrth ei gweithredu, cynigir y byddai'r ddyletswydd yn dod i rym ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Byddai hyn hefyd yn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â phrosesau cynllunio corfforaethol presennol ac â threfniadau adrodd ac yn lleihau'r baich ar sefydliadau. Amlinellir yn Nhabl 1 isod amserlen ar gyfer cyflwyno'r ddyletswydd yn raddol. Bydd gorchymyn cychwyn yn dod â'r trefniadau manwl ar gyfer cyflwyno'r ddyletswydd yn raddol i rym.

## ii) Sefydlu'r corff newydd

4.3 Golyga rôl y corff wrth gynghori, rhoi cyfarwyddyd a chefnogi sefydliadau cyhoeddus i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Bil Datblygu Cynaliadwy ei bod yn angenrheidiol i'r corff fod yn gweithredu cyn gynted ag y daw'r Bil i rym. Y dyddiad arfaethedig ar gyfer hyn fydd 2015, a fydd yn cyd-fynd â'r ddyletswydd sy'n dod i rym ar gyfer y sefydliadau hynny y bydd y ddyletswydd yn berthnasol iddynt o fis Ebrill 2015 (gweler Tabl 1). Cynigir y dylid sefydlu'r corff cyn gynted â phosibl fel y gall ddatblygu'r gallu i gefnogi'r sefydliadau hyn ynghyd â sefydliadau eraill y gwasanaeth cyhoeddus a fydd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd.

| **Tabl 2 - Cynllun Gweithredu** | |
|---|---|
| O 2015 | |
| - Llywodraeth Cymru<br>- Cyfoeth Naturiol Cymru<br>- Llyfrgell Genedlaethol Cymru<br>- Amgueddfa Cymru<br>- Chwaraeon Cymru<br>- Cyngor Celfyddydau Cymru | Sefydlu'r corff annibynnol newydd ar gyfer datblygu cynaliadwy |

| Tabl 2 - Cynllun Gweithredu |
|---|
| O 2016 |
| - Awdurdodau Lleol<br>- Awdurdodau Tân ac Achub<br>- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol<br>- Ymddiriedolaethau'r GIG<br>- Byrddau Iechyd Lleol<br>- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>- Sefydliadau Addysg Uwch<br>- Corfforaethau addysg bellach |
| O 2017 |
| - Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig<br>- Cynghorau Tref a Chymuned |

### iii) Cefnogi'r newid

4.4 Mae cryn waith wedi'i gyflawni yng Nghymru mewn perthynas â datblygu cynaliadwy ac mae rhai sefydliadau eisoes wedi dechrau sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy. Dyma sylfaen dda ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd a bydd hi'n bwysig elwa ar yr arferion da presennol ar draws Cymru a'r tu allan i Gymru er mwyn cynorthwyo sefydliadau i gyflawni gofynion y ddyletswydd.

4.5 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fydd Bil Datblygu Cynaliadwy ynddo'i hun yn cyflawni'r newid sydd ei angen. Bydd gofyn gwella gallu sefydliadau a'r modd y cânt eu hintegreiddio, yn unol â'r ymgynghoriad a dynnodd sylw at nifer o'r rhwystrau i gyflawni datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Wrth ddatblygu'r canllawiau statudol sydd ynghlwm â'r ddeddfwriaeth arfaethedig hon bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â sefydliadau a rhanddeiliaid.

4.6 Mae nifer o bolisïau, rhaglenni a darnau o ddeddfwriaeth eisoes ar waith gan Lywodraeth Cymru a fydd yn helpu i gefnogi'r newid hwn. Mae'r dull hwn hefyd yn defnyddio egwyddorion datblygu cynaliadwy - gan alluogi pobl, cymunedau a sefydliadau ac ennyn eu diddordeb er mwyn canfod yr atebion sy'n bodloni orau eu hamgylchiadau o fewn fframwaith datblygu cynaliadwy.

### iv) Mesur cynnydd

4.7 Yn unol â'r dull cyffredinol, bydd angen i'r gwaith o fesur cynnydd mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth gael ei gynnwys o fewn y fframweithiau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer y sefydliadau perthnasol. Eto i gyd, fel yr amlinellir yn yr adran 'Sicrhau Canlyniadau', bydd y ddeddfwriaeth yn amlinellu'r angen am ganlyniadau

clir a dangosyddion cyfatebol sy'n mesur eu cynnydd. Bydd y cynigion ar gyfer adrodd a'r corff datblygu cynaliadwy, a fydd â swyddogaeth allweddol wrth gefnogi sefydliadau a monitro cynnydd, yn cefnogi'r gwaith hwn. Bydd y cynigion ar gyfer atgyfnerthu atebolrwydd am ddatblygu cynaliadwy hefyd yn gwella'r fframwaith monitro.

4.8 Caiff y cynnydd o ran cyflawni cynaliadwyedd ar lefel genedlaethol ei fesur ar hyn o bryd drwy'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy. Cyhoeddwyd y ffigurau diweddaraf ynghylch datblygu cynaliadwy ym mis Awst 2012 ac roeddent yn dangos bod Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynyddu ei hallbwn economaidd, wedi cynhyrchu rhagor o ynni adnewyddadwy, wedi ailgylchu a chompostio mwy o'i gwastraff ac wedi gwella'r modd y mae'n rheoli dŵr.

4.9 O ran Llywodraeth Cymru, caiff y cynnydd ei fesur yn unol â'r modd y cyflawnir ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu'r cyd-destun ar gyfer proses benderfynu Llywodraeth Cymru ac mae'n rhoi eglurder ynghylch a yw camau'n cael eu gweithredu ac a ydynt yn cyflawni'r effeithiau bwriedig. Caiff adroddiadau cynnydd ynghylch y Rhaglen eu cyhoeddi'n flynyddol; cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ym mis Mai 2012.

4.10 Caiff setiau priodol o ddangosyddion eu hystyried fel rhan o'r broses barhaus o adolygu'r Rhaglen Lywodraethu. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr adroddiad blynyddol nesaf ar y Rhaglen Lywodraethu pan gaiff ei gyhoeddi yn 2013. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu ymgynghori'n fuan ynghylch y dangosyddion cyfredol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy.

## 5. Atebolrwydd

5.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r cynigion ar gyfer sicrhau bod y sefydliadau cyhoeddus y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt yn gwbl atebol o fewn y fframwaith llywodraethu ehangach.

### Y Cefndir

5.2 I ddarparu fframwaith llywodraethu effeithiol ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru mae'n hanfodol fod sefydliadau'n atebol am gynnydd wrth sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae atebolrwydd yn agwedd ganolog ar ddull y Llywodraeth o wella gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod sefydliadau'n atebol i'r bobl a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

5.3 Wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu'r cynigion ystyriodd a ddylai'r corff annibynnol newydd ar gyfer datblygu cynaliadwy graffu ar sefydliadau unigol sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd. Fodd bynnag, o ystyried y nod i sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus ynghyd â maint y dasg, mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad mai'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni atebolrwydd clir a chraffu cadarn yw drwy eu cynnwys o fewn y fframweithiau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r trefniadau hyn eisoes yn archwilio ansawdd y systemau a'r prosesau sy'n ategu trefniadau llywodraethu corfforaethol sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus.

5.4 Bydd hyn yn ategu'r gofynion ym Mesur Llywodraeth Leol 2011 sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i graffu ar gyfraniad holl ddarparwyr y gwasanaeth cyhoeddus mewn maes er mwyn cyflawni gwell canlyniadau.

### (i) Rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru

5.5 Yn achos y rhan fwyaf o'r sefydliadau a bennwyd, Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am y gwaith craffu. Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddo a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Yr Archwilydd Cyffredinol sydd hefyd yn penodi archwilwyr allanol sefydliadau llywodraeth leol Cymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

5.6 Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod gan yr Archwilydd Cyffredinol eisoes brofiad o gynnal archwiliadau o waith datblygu cynaliadwy o fewn Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru. Yn unol â nod canolog y ddeddfwriaeth, mae'r Llywodraeth yn cynnig rhoi dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru, i gynnwys archwiliad o'r modd y mae sefydliadau wedi sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy fel eu prif egwyddorion trefniadol mewn perthynas â'r ddyletswydd.

5.7 Dylai unrhyw archwiliad ganolbwyntio ar gydymffurfiaeth, gan y corff cyhoeddus a archwilir, o ran y modd y mae datblygu cynaliadwy wedi'i sefydlu o fewn y systemau a'r prosesau sy'n pennu'r modd y gwneir penderfyniadau strategol. Mae hyn yn cynnwys cynllunio strategol ar y cyd â sefydliadau eraill, wrth baratoi

asesiad o anghenion strategol, cynllun integredig unigol neu gynllun gofodol neu waith cyffelyb.

5.8 Dylai trefniadau o'r fath gyfyngu ar y modd y creffir ar y systemau a'r prosesau sy'n pennu'r modd y gwneir penderfyniadau strategol a sut y mae datblygu cynaliadwy wedi'i ystyried. Ni ddylent gwestiynu amcanion polisi sefydliad, nac ychwaith ganlyniadau penderfyniad penodol.

5.9 Ar hyn o bryd mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn pennu ei ddull o archwilio mewn Cod Ymarfer Archwilio. Byddai modd cynnwys cymal ychwanegol o fewn y ddogfen hon yn amlinellu sut y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnig cynnal yr archwiliad a'r egwyddorion a ddefnyddir. Y bwriad yma fyddai ategu pwerau a dyletswyddau presennol Archwilydd Cyffredinol Cymru, fel y rhai ar gyfer llywodraeth leol o dan y broses flynyddol ar gyfer adrodd ar welliannau. Ni ddylai cost archwiliadau o'r fath, i'r sefydliadau sy'n archwilio na'r sefydliadau y creffir arnynt, fod yn sylweddol a dylent fod yn gymesur â'r manteision. Bydd disgwyl i Archwilydd Cyffredinol Cymru graffu ar y graddau y mae sefydliadau wedi cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau statudol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

**(ii) Trefniadau atebolrwydd eraill**

5.10 Ceir gwahanol drefniadau atebolrwydd ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch a Chorfforaethau Addysg Bellach, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Chyrff Llywodraeth Leol. Dylai'r trefniadau ar gyfer y cyrff hyn gael eu hystyried er mwyn sicrhau dull cyson o graffu ar draws y sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd. Dylai'r modd y gweithredir y trefniadau caffael adlewyrchu'r modd y gweithredir y ddyletswydd mewn rhai sefydliadau, fel yr amlinellir ym Mhennod 4.

5.11 Nid yw'n fater i Lywodraeth Cymru, wrth gwrs, ond gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried ei rôl wrth graffu yn y dyfodol ar y ddyletswydd datblygu cynaliadwy o ystyried ei rôl allweddol a'i allu i hybu integreiddio.

# 6. Casgliad

6.1 Mae'r Papur Gwyn hwn yn amlinellu cynigion y Llywodraeth ynghylch deddfwriaeth i atgyfnerthu'r fframwaith llywodraethu ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

6.2 Os hoffech gyflwyno unrhyw sylwadau ynghylch y cynigion a amlinellir yn y Papur Gwyn ceir nifer o gwestiynau isod. Ceir ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad gyda'r Papur Gwyn hwn fel y gallwch gyflwyno sylwadau. Ceir manylion llawn ynghylch yr ymgynghoriad ar glawr mewnol y ddogfen hon. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori ar draws Cymru ynghylch y Papur Gwyn yn ystod y cyfnod ymgynghori.

### (i) Y camau nesaf

6.3 Dros y misoedd nesaf bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio ar ddatblygu'r Bil Datblygu Cynaliadwy fel y gall ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn hydref 2013. Bydd hyn yn cynnwys parhau i ymwneud â sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd, rhanddeiliaid ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

### (ii) Yr Effaith

6.4 Mae'r dull o sefydlu datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol wedi sicrhau bod prosesau presennol ar gyfer gwneud penderfyniadau a fframweithiau atebolrwydd yn cael eu defnyddio. O'r herwydd bydd hyn yn lleihau'r baich ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth arfaethedig hon. Fodd bynnag, mae'r dull hwn hefyd yn golygu ei bod yn anodd mesur effeithiau manwl y ddyletswydd newydd ar sefydliadau. Yn sgil hyn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cydweithio â sefydliadau wrth ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil.

6.5 Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gyhoeddi ar wahân. Caiff hwn ei adolygu'n rheolaidd wrth i'r Bil Datblygu Cynaliadwy gael ei ddatblygu.

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

| Cwestiwn 1 | (Pennod 2) |
|---|---|
| Beth yw eich barn ynghylch y cynigion ar gyfer dyletswydd newydd i sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy fel prif egwyddorion trefniadol rhai sefydliadau penodol yng Nghymru? | |
| **Cwestiwn 2** | **(Pennod 3)** |
| Beth yw eich barn ynghylch y cynigion mewn perthynas â chorff annibynnol ar gyfer datblygu cynaliadwy? | |
| **Cwestiwn 3** | **(Pennod 4)** |
| Beth yw eich barn ynghylch y bwriad i gyflwyno'r ddyletswydd yn raddol a'i gweithredu, gan gynnwys yr amserlen sydd ynghlwm â sefydlu'r corff annibynnol ar gyfer datblygu cynaliadwy? | |
| **Cwestiwn 4** | **(Pennod 5)** |
| Beth yw eich barn ynghylch y cynigion i wella'r fframwaith atebolrwydd ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru? | |
| **Cwestiwn 5** | |
| Rydym wedi gofyn pedwar cwestiwn penodol. A oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy? (Er enghraifft o ran gweithredu'r cynigion). Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gyfer cyflwyno eich sylwadau. | |